



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Datganiad Tryloywder – Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1737A2020-21



Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ynglŷn â Swyddfa Archwilio Cymru/Yr Archwilydd Cyffredinol	5
Fframwaith Rheoli Ansawdd	6
Monitro ac Adrodd ar Ansawdd Archwilio	11

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad yn rhan o gasgliad o ddogfennau sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi gwybodaeth debyg i'r wybodaeth y mae'n ofynnol i gwmnïau archwilio yn y sector preifat ei chyhoeddi yn eu 'hadroddiadau tryloywder'. Nid yw'r gofynion hyn i gyhoeddi adroddiadau tryloywder yn berthnasol i ni ond rydym yn ymrwymedig i egwyddor tryloywder ym mhopeth a wnawn.

Mae adran gyntaf y Datganiad hwn – Ynglŷn â Swyddfa Archwilio Cymru/Yr Archwilydd Cyffredinol – yn darparu cyfeiriadau sy'n nodi ble'r ydym eisoes yn cyhoeddi gwybodaeth am ein trefniadau llywodraethu ac ariannol (gwybodaeth y mae'n ofynnol i gwmnïau yn y sector preifat ei chynnwys yn eu 'hadroddiadau tryloywder' gan nad yw'n cael ei darparu yn unrhyw le arall).

Rydym yn ymrwymedig i gyrraedd safonau ansawdd archwilio uchel yn ein holl waith er mwyn darparu sicrwydd ar gyfer aelodau'r cyhoedd y gellir dibynnu ar ein gwaith a bod y negeseuon yr ydym yn eu darparu'n gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r rhannau o'r Datganiad sy'n weddill wedi'u bwriadu i egluro ar lefel uchel y trefniadau sydd gennym i gyflawni'r amcanion hyn.

Ynglŷn â Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol

Ceir gwybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol mewn ystod o ddogfennau cyhoeddus sydd ar gael ar [ein gwefan](#). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ein hamcangyfrifon o incwm a gwariant
- Ein Cynlluniau Blynyddol
- Ein Hadroddiadau Interim
- Ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- Ein Cod Ymarfer ar y Berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru
- Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Mae gwybodaeth am ein trefniadau llywodraethu ac ariannol ar gael yn y dogfennau hyn fel a ddangosir yn y tabl canlynol.

Strwythur Cyfreithiol	Trefniadau Llywodraethu	Gwybodaeth Ariannol	Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Bwrdd ac Uwch Reolwyr Swyddfa Archwilio Cymru
Mae'r Cod Ymarfer ar y Berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn crynhoi rolau statudol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a'r berthynas rhyngddynt.	Ceir crynodeb o strwythur llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yn y Datganiad Llywodraethu a gyhoeddir yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.	Ceir gwybodaeth am incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru yn ein Hamcangyfrifon a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.	Ceir gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol, a seiliau cydnabyddiaeth ariannol, Aelodau o Fwrdd ac Uwch Reolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ein Hadroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol blynyddol a gyhoeddir yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Fframwaith rheoli ansawdd

Mae ein system rheoli ansawdd wedi'i llunio fel ei bod yn cydymffurfio â safonau rheoli ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol.

Mae ein Tîm Arwain Gweithredol o'r farn bod y fframwaith ansawdd hwn yn gweithredu'n effeithiol a bod y trefniadau'n parhau i ddatblygu fel a nodir yn yr adroddiad hwn.

Arwain trwy esiampl

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol yn atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am ansawdd ein holl waith archwilio, gan gynnwys gwaith a gyflawnir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chontractwyr allanol. Mae'n sicrhau bod ansawdd archwilio'n flaenllaw yn yr hyn a wnawn trwy:

- bennu safonau personol ar gyfer ansawdd archwilio ac arwain trwy esiampl;
- gwreiddio ansawdd archwilio yn ein strategaethau, diwylliant, gwerthoedd, cod ymddygiad a methodolegau archwilio;
- hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd archwilio trwy ein system arfarnu perfformiad;
- darparu negeseuon rheolaidd, agored ac eglur ar gyfer staff am bwysigrwydd ansawdd archwilio; a
- sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir am ansawdd archwilio.

Mae ein diwylliant yn un sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac i gynorthwyo ein staff i gyflawni'r gwelliant hwnnw, trwy ddysgu a datblygu a'n trefniadau rheoli perfformiad.

Methodoleg ac offer archwilio

Elfen bwysig o gyflawni ansawdd archwilio yw sefydlu dulliau safonedig o wneud ein gwaith. Rydym wedi datblygu methodolegau cyson ar gyfer ein holl waith, fel a ganlyn:

- mae'r Llawlyfr Cyflawni Archwiliadau o Berfformiad yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ein holl waith archwilio perfformiad;
- mae'r Llawlyfr Cyflawni Archwiliadau Ariannol yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ein holl waith i ddarparu barn ar gyfrifon; ac
- mae casgliad o gyfarwyddiadau ardystio'n darparu canllawiau ynghylch gwneud gwaith ardystio grantiau.

Mae ein holl fethodolegau archwilio'n pwysleisio pwysigrwydd ansawdd archwilio a rôl yr holl aelodau o staff o ran cyflawni'r lefelau ansawdd archwilio disgwylidig.

Mae'r methodolegau hyn wedi'u bwriadu i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer defnyddio crebwyll a gweithdrefnau cyson yn ein holl waith archwilio ac fe'u hategir gan ddogfennaeth a systemau rheoli cofnodion, sydd eto'n hybu cysondeb ac ansawdd archwilio. Rydym yn parhau i ddatblygu a defnyddio ystod o offer cyfrifiadurol eraill wrth wneud ein gwaith i'n galluogi i gwestiynau symiau mawr o ddata cymhleth yn effeithiol ac i gyflwyno ein canfyddiadau mewn fformatau sy'n fwy hygyrch yn weledol.

Er bod safoni dulliau archwilio'n gwella ansawdd archwilio, ni all ddisodli'r angen am sgeptigaeth a chrebwyll effeithiol gan archwilwyr. Trwy ein rhaglenni dysgu a datblygu rydym yn parhau i hybu'r sgiliau hyn gan hefyd ddiweddarau ein methodolegau archwilio i wreiddio arferion gorau ac i ystyried datblygiadau proffesiynol newydd.

Yn yr un modd, mae cwmnïau preifat yn defnyddio methodolegau ac offer safonedig hefyd.

Caiff ein holl archwilwyr, gan gynnwys cwmnïau preifat, eu cefnogi gan swyddogaethau technegol pwrpasol sy'n rhoi arweiniad a chynghor arbenigol ynghylch ystod o faterion technegol a phroffesiynol.

Annibyniaeth archwilwyr

Un o nodweddion allweddol archwilwyr yw'r gofyniad ein bod yn annibynnol ar y rhai yrdym yn eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys nid dim ond cyflawni gwaith archwilio ond annibyniaeth penodiadau hefyd. Mae'r annibyniaeth hon yn ein cynorthwyo i arfer sgeptigaeth broffesiynol ac yn ein galluogi i ddod i gasgliadau mewn modd gwrthrychol heb i ddylanwadau a allai beryglu ein crebwyll proffesiynol effeithio arnom.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r swyddfa'n annibynnol ar y Llywodraeth a chaiff penodiadau eu gwneud gan y Frenhines yn seiliedig ar enwebiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penodir Archwilwyr Cyffredinol am gyfnod penodedig o wyth mlynedd a dim ond gan y Frenhines mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y gallant gael eu diswyddo. Telir cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n gwarchod annibyniaeth y swydd.

Rydym wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio a Chod Ymddygiad sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd annibyniaeth a gwrthrychedd i'n gwaith.

Mae'n ofynnol i'n holl staff wneud datganiad blynyddol ynghylch annibyniaeth lle maent yn nodi unrhyw gysylltiadau â'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio a allai amharu ar eu hannibyniaeth. Lle nodir unrhyw rwystrau o'r fath, cymerir camau gweithredu priodol i liniaru gwrthdaro buddiannau posibl i lefel dderbyniol. Gall camau gweithredu o'r fath gynnwys atal staff rhag gweithio ar archwiliadau penodol neu gyfyngu ar gwmpas yr ymwneud a all fod gan unigolyn ag archwiliad penodol.

Mae Cod Ymddygiad ar wahân yn bodoli ar gyfer aelodau'r Bwrdd y mae'n ofynnol iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a all fod ganddynt mewn unrhyw fater ac y gall fod yn ofynnol iddynt adael cyfarfodydd pan fo'r mater hwnnw'n cael ei ystyried.

Yn ychwanegol at y gwaith statudol y mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ei wneud, gall wneud peth gwaith anstatudol o bryd i'w gilydd. Mae gennym bolisiau a gweithdrefnau sefydledig i sicrhau bod gwaith o'r fath yn cael ei wneud dim ond lle mae gennym y capasiti a'r gallu i wneud y gwaith hwnnw a lle na fyddai derbyn penodiad o'r fath yn amharu ar annibyniaeth statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'n ofynnol i gwmnïau preifat sy'n gwneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fod â threfniadau tebyg i fonitro a rheoli unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth yr

archwiliadau y maent yn eu cynnal. Mae gennym weithdrefnau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi Polisi Cylchdroi hefyd ynghylch pa mor hir y gall uwch aelodau o staff fod yn rhan o gyfarwyddo unrhyw archwiliad penodol. Mae'r polisi'n ceisio taro cydbwysedd rhwng natur annewisol gwaith yr Archwilydd Cyffredinol gan mwyaf, maint cymharol fach Swyddfa Archwilio Cymru a gofynion safonau moesegol.

Darperir hyfforddiant yn rheolaidd ar gyfer staff i godi ymwybyddiaeth o'n polisiau a gweithdrefnau annibyniaeth.

Addysg broffesiynol barhaus ar gyfer archwilwyr

Rydym yn buddsoddi'n drwm mewn cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer staff i wella gwybodaeth a sgiliau proffesiynol ein staff. Mae'r staff yn cael lwfans nodweddiadol o 10 diwrnod y flwyddyn i gefnogi eu gweithgarwch dysgu a datblygu proffesiynol.

Mae dwy brif elfen i'n rhaglenni dysgu a datblygu blynyddol:

- rhaglenni gorfodol: mae'r rhain wedi'u bwriadu i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant mewn meysydd sgiliau technegol a chraidd newydd ac allweddol sy'n berthnasol i'w rolau penodol; a
- dysgu 'ar alw': caiff hyn ei adnabod o adolygiadau datblygu perfformiad gan unigolion gyda'u rheolwyr llinell, ac mae wedi'i fwriadu i gefnogi datblygiad personol unigolion.

Mae ein prosesau datblygiad personol wedi cael eu hachredu fel systemau DPP priodol ar gyfer ein staff gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW), Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT).

Mae effeithiolrwydd ein buddsoddiadau mewn datblygiad proffesiynol yn cael ei adolygu a'i asesu'n barhaus. Yn arbennig, cynhelir asesiadau cyfnodol rhwng unigolion a'u rheolwyr llinell o effeithiolrwydd y dysgu a sut y mae wedi cael ei roi ar waith yn ymarferol.

Rydym hefyd yn gweithredu dull dysgu ar ôl prosiectau ar gyfer pob prosiect mawr (gan gynnwys archwiliadau) sy'n ceisio atgyfnerthu ein nod, sef bod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn rhannu ac yn ymgnïo i wella'n barhaus. Mae'r broses hon ar gyfer dysgu ar ôl prosiectau'n canolbwyntio ar ystyried beth allwn ni ei ddysgu o'r ffordd y cafodd y prosiect ei gyflawni ac mae'n hybu ystyriaeth i'r canlynol:

- yr hyn a weithiodd yn dda;
- yr hyn y gellid bod wedi'i wella;
- sut yr oedd yn teimlo;
- tystiolaeth o effaith; a
- gwersi ar gyfer y dyfodol.

Mae cwmnïau preifat yn cymryd rhan yn ein rhaglenni hyfforddiant hefyd, i sicrhau cysondeb ymhlith pawb sy'n gwneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Monitro

Rydym wedi sefydlu trefniadau monitro ansawdd ar draws ein gwaith archwilio ariannol a'n gwaith archwilio perfformiad i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau ansawdd archwilio yr ydym yn eu disgwyl yn ein holl waith. Caiff y rhain eu nodi isod.

Gwaith archwilio ariannol

Mae polisi o adolygu mewn cylchdro wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer gwaith archwilio ariannol – barn ar gyfrifon ac ardstyio grantiau – a chaiff archwiliadau mewnol eu dethol ar gyfer eu hadolygu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- mae pob arweinydd ymgysylltu'n cael ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd fel arfer (er bod hyn yn tueddu i fod yn flynyddol yn ymarferol); ac
- mae pob rheolwr archwilio'n cael ei adolygu o leiaf bob pedair blynedd fel arfer.

Rydym hefyd yn amcanu at gyflawni cwmpas cynrychiadol o ran y cyrff yr ydym yn eu harchwilio gan ystyried sectorau archwilio, maint cyrff a chymhlethdod.

Cynhelir nifer o'r adolygiadau hyn gan gyrff cyfatebol o blith asiantaethau archwilio eraill y DU, megis Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ac Audit Scotland.

Rydym hefyd yn gwella ein trefniadau trwy ddefnyddio Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) i gynnal adolygiadau annibynnol o'n trefniadau ansawdd ar gyfer archwilio cyfrifon. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi unrhyw gyfyngiad ar ddewis yr Adran Sicrhau Ansawdd o archwiliadau i'w hadolygu, sut y cynhelir yr adolygiadau hynny na sut y mae'r Adran Sicrhau Ansawdd yn adrodd yn ôl wrth Swyddfa Archwilio Cymru ar ei chanfyddiadau. Rydym yn cyhoeddi crynodeb blynyddol o ganfyddiadau annibynnol yr Adran Sicrhau Ansawdd ar y dudalen [Sefydliad Agored a Thryloyw](#) ar ein gwefan. Fe ymrwymon ni i gontract newydd yn 2016, a fydd yn rhedeg tan fis Tachwedd 2020. Mae'r contract hwn yn darparu ar gyfer gwasanaethau adolygu ansawdd a hyfforddiant i adolygwyr ansawdd mewnol a chanllawiau arbenigol ynghylch datblygu ein methodoleg archwilio. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o estyn gwahoddiad i dendro am wasanaethau tebyg unwaith y bydd y contract cyfredol yn dod i ben.

Gwaith archwilio perfformiad

Rydym yn defnyddio ystod o wahanol ddulliau i asesu pa un a yw ein gwaith archwilio perfformiad wedi cydymffurfio â'r safonau yr ydym wedi'u nodi yn ein fframwaith ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- adolygiadau terfyn rhaglen o sampl o gynnyrch archwilio perfformiad a ddewisir i'w hadolygu yn unol â'r egwyddorion canlynol:
 - mae pob arweinydd ymgysylltu'n cael ei adolygu bob blwyddyn fel arfer; ac

- mae pob rheolwr archwilio'n cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd fel arfer.
- adolygiadau gan gymheiriaid o sampl o adroddiadau cenedlaethol;
- adborth ar adroddiadau cenedlaethol a rhaglenni archwilio perfformiad blynyddol o arolygon rhanddeiliaid;
- asesiad o ansawdd ein hallbynnau ysgrifenedig o ddadansoddiad o weithgarwch golygu a sgrinio archwiliadau o berfformiad;
- dadansoddiad o gyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb; a
- gweithgareddau dysgu a datblygu fel grŵp ym maes perfformiad.

Er mwyn cynnal yr adolygiadau gan gymheiriaid a amlygir uchod, rydym wedi sefydlu trefniadau dwyochrog gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon i adolygu sampl o'n hadroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn.

Cwmnïau'r sector preifat

Mae gennym hefyd gcontractau gyda chwmnïau archwilio yn y sector preifat i wneud perth gwaith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'n ofynnol yn gytundebol i'r cwmnïau hyn sefydlu eu fframweithiau rheoli ansawdd eu hunain i sicrhau bod eu gwaith yn cael ei wneud i'r safonau ansawdd priodol. Rydym yn cynnal adolygiadau sicrhau ansawdd o'r gwaith archwilio a wneir gan y cwmnïau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac mae gennym fesurau unioni priodol os na fydd y safonau hynny'n cael eu cyrraedd.

Trefniadau cwmni cyfan

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol hefyd yn gyfrifol am fonitro pa un a oes trefniadau cymorth priodol (gan gynnwys mewn perthynas â threfniadau annibyniaeth) ar waith ar draws Swyddfa Archwilio Cymru yn ei chyfanrwydd i wireddu'r safonau ansawdd archwilio yr ydym yn disgwyl eu cyrraedd. I'r perwyl hwn mae'n cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am gynghori'r Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd ynghylch y fframwaith rheoli ansawdd a sefydlwyd o fewn Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyfarwyddwr Cyllid sydd â chyfrifoldeb am Adnoddau Dynol (gan gynnwys ein prosesau recriwtio ac arfarnu).

Adroddiadau

Cyflwynir adroddiadau ar ganlyniadau'r gwaith adolygu hwn i'r Tîm Cyfarwyddwyr a'r Tîm Arweinwyr Gweithredol ac mae'r canlyniadau'n cael eu rhannu gyda phob aelod o staff i ategu ein dyhead i wella'n barhaus.

Monitro ac adrodd ar ansawdd archwilio

Un o'r dangosyddion perfformiad allweddol yr ydym yn eu mesur yn unol â'n Cynllun Blynyddol yw:

- cyfran yr archwiliadau a gyflawnir yn unol â'r safonau ansawdd gofynnol.

Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys gwaith a wneir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith a wneir gan gwmnïau'r sector preifat.

Rydym yn pennu targed ar gyfer y dangosydd hwn, sef cyflawni cyfradd gydymffurfio o 100% ar gyfer yr archwiliadau a gaiff eu hasesu fel rhan o'r gwaith monitro ansawdd a ddisgrifir uchod.

Rydym yn adrodd yn gyhoeddus ar ein perfformiad yn erbyn y targed hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru